OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 5

GORFODI A THROSEDDAU

Troseddau: cofnodion a marciau

31.—(1) Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion rheoliad 11 (cofnodion: carcasau buchol) neu reoliad 16 (cofnodion: carcasau moch) yn euog o drosedd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n marcio carcas buchol neu ran o garcas o'r fath—

(a) fel y rhagnodir gan Erthygl 8(1), (2)(a), (3)(a) (o'u darllen gydag ail baragraff Erthygl 8(3)), (4) a (5) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu

(b) mewn modd sy'n debyg iawn i'r marc a ragnodir yn y darpariaethau hynny,

sy'n debygol o gamarwain, yn euog o drosedd.

(3) Mae unrhyw berson sy'n marcio carcas mochyn neu ran o garcas o'r fath—

(a) fel y rhagnodir gan Erthygl 8(1), (2)(b), (3)(c) (o'u darllen gydag ail baragraff Erthygl 8(3)), (4) a (5) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu

(b) mewn modd sy'n debyg iawn i'r marc a ragnodir yn y darpariaethau hynny,

sy'n debygol o gamarwain, yn euog o drosedd.